**Y Pwyllgor Deisebau**
—
**Petitions Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Deisebau@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Petitions@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565

Huw Irranca-Davies AS
Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Llywodraeth Cymru
Tŷ Hywel
Cardiff Bay
CF99 1SN

Anfonwyd copi at:
Llyr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

6 Rhagfyr 2024

Annwyl Ysgrifennydd y Cabinet,

**Deiseb P-06-1478 Dylid cynnal adolygiad cynhwysfawr o waith Cyfoeth Naturiol Cymru a methiannau'r sefydliad o ran cyflawni ei rwymedigaethau statudol i ddiogelu Cymru**

Bu'r Pwyllgor Deisebau yn trafod y ddeiseb uchod, a gyflwynwyd gan Alun Phillips, yn ei gyfarfod ar 18 Tachwedd.

Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu i ofyn am eich barn ar yr ohebiaeth atodedig gan y deisebydd ac i anfon copi at Gadeiryddion y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a Phwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig er gwybodaeth iddynt. Nododd yr Aelodau y bydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd a Materion Gwledig yn parhau i graffu ar y materion hyn a bydd cyfleoedd hefyd i Aelodau barhau i'w codi yn y Cyfarfod Llawn.

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor hefyd yn trafod dwy ddeiseb ar wahân ynghylch dull CNC o ymdrin â gwasanaethau canolfannau ymwelwyr, a bydd hefyd yn cadw'r ddeiseb P-06-1478 hon ar agor, tra'n aros am eich ymateb

Mae'r manylion llawn am y modd y trafododd y Pwyllgor y ddeiseb, gan gynnwys yr ohebiaeth a'r camau y cytunwyd arnynt gan y Pwyllgor, ar gael yma: P-06-1478 Dylid cynnal adolygiad cynhwysfawr o waith Cyfoeth Naturiol Cymru a methiannau'r sefydliad o ran cyflawni ei rwymedigaethau statudol i ddiogelu Cymru

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon eich ymateb drwy neges e-bost at y tîm clercio yn SeneddDeisebau@cynulliad.cymru.

Yn gywir,

Carolyn Thomas AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.